

Y Nadolig

Darlleniad 1: 2 Samuel 23: 14-17

Darlleniad 2: Eseia 9: 1-7

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, diolch am dy rodd amhrisiadwy i'th blant y Nadolig hwn, sef Iesu Grist ein Harglwydd. Diolchwn am y gofal tymhorol a fu drosom. Dymunwn ddiolch i ti am 'y Gair a wnaethpwyd yn gnawd ac a rodiodd yn ein plith yn llawn gras a gwirionedd'. Gweddiwn yn arbennig dros holl blant y byd; dyhëwn am eu gweld yn eiddo i ti dy hun. Dyro iddynt dy ras a'th burdeb i fod yn ufudd a ffyddlon i ti. Boed i holl lafur a chariad yr Ysgol Sul ddwyn ffrwyth fel y byddont yn prydfferthu dy winllan di ac yn perarogli. Bendithia gartrefi dy blant fel y byddant yn ffynnu yng nghariad Iesu Grist ac yn cysegru eu bywyd i'th wasanaeth di. Arwain blant a'u rhieni ar hyd llwybrau bywyd a boed iddynt adnabod Iesu Grist yn Arglwydd ac yn Waredwr eu bywyd.

Y Nadolig hwn, bydded i'r holl fyd, O! Dad, amgyffred o'r newydd dy gariad dwyfol a welwyd gynt mewn preseb. Dangos i ni dy oleuni megis i'r bugeiliaid gynt ac arwain ninnau hefyd ar hyd y llwybr fel y gallwn ninnau ddwyn rhodd i'r baban Iesu. Rho i ni'r llawenydd gynt, cynnal di ein bywyd bregus a brysied y dydd pan fydd ein heneidiau'n teimlo grym dy iachawdwriaeth. Cyffeswn fod Crist fel Goleuni a Gwaredwr yn y byd; rho inni brofi'r heddwch hwnnw na all dim ei ddinistrio; datguddia dy hun o'r newydd inni'r Nadolig hwn yn dy gariad mawr a ddatguddiaist yn Iesu Grist. Maddau bob hunanoldeb a phechod sydd wedi llygru'r ddelwedd ac wedi ein pellhau ni oddi wrth dy ewyllys yma ar y ddaear. 'Bydded i ymadroddion ein genau a myfyrdod ein calon fod yn gymeradwy ger dy fron di, O! Dduw, ein craig a'n prynwr.'

'O codwn ninnau lef
Ar ei Nadolig ef,
Yn ddiolch i Fab Duw
Am ddod i'n byd i fyw.'

Cofia holl bobloedd y byd, yn arbennig y rhai na fydd yn dathlu'r Nadolig fel y rhan fwyaf. Cofiwn am y difreintiedig, a'r rhai a

orthrymir yn fynych am eu bod yn anwybodus. Cofia dy Eglwys yn ei hamcan i fod yn gyfrwng i'th Ysbryd di weithio yn y byd, ac i ddysgu dy feddwl i ddynion gan wneud pawb yn ddeiliaid teilwng o deyrnas yr Arglwydd Iesu Grist. Cofia hi hefyd yn ei rhaniadau. Cofiwn am lawer fydd yn dod at ei gilydd dros y Nadolig yn enw Iesu Grist i geisio arweiniad, pe na baent ond dau neu dri. Dyro iddynt deimlo mor hyfryd yw i frodyr drigo ynghyd, ac mai i'r cyfryw rai y daw'r fendith a ddyfarnodd yr Arglwydd y fendith fwyaf, sef Bywyd Tragwyddol. Una ni ynot ti, ein Tad. Sancteiddia ni trwy dy wirionedd. Arwain ni i oleuni dy wyneb fel y gorfoleddo pawb yn dy iachawdwriaeth.

Dyro inni'r nerth a'r awydd dros gyfnod y Nadolig, O! Arglwydd, i wneud rhyw ddaioni yn ein cylch ein hunain, yn ein cartref neu yn ein heglwys. Cynorthwya ni i wneud rhywbeth drosot wrth wneud dy waith. Gwna ni'n gryf a gwrol i weithio yn erbyn pechod, ac i ddweud yn hyderus ein bod yn perthyn i ti.

‘Dysg im weddio’n iawn,
A dysg fi'r ffordd i fyw,
Gwna fi yn well, yn well bob dydd,
Fy mywyd, d'eiddo yw.’

Erfyniwn arnat, drugarog Dad, i'n tywys a'n harwain ninnau, fel bod ein bywyd yn fendith i eraill ac yn ogoniant i ti. Yng nghanol ein mwyniant dros y Nadolig na foed i'r un ohonom anghofio pwrpas ein dathlu, sef bod Iesu Grist wedi dyfod i'n byd. Dyro i ninnau galon y bydd Iesu Grist yn trigo ynddi, a dyro nerth inni ailgydio o'r newydd dros y Nadolig yn ein brwdfrydedd i'th wasanaethu di fel Arglwydd a Gwarddwr. Dyro inni brydferthwch y galon lân sy'n eiddo i Iesu. Dymunwn gofio am anogaeth gyson yr Apostol Paul ar i ni ‘wisgo amdanom yr Arglwydd Iesu Grist’. Ef yw'r wisg harddaf y gallwn ei gwisgo. Gwna ni'n barod i wisgo cyfrifoldeb arweinwyr, os gelwir ni i hynny. Cadw ein hysbryd yn ostyngedig, ein cariad at ddynion yn gynnes a'n camre yn dy ddeddfau. ‘Wele ni, anfon ni.’ Amen.

Carys Ann